

NEWYDDLLEN

Diwygio Etholiadol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhifyn 12

Chwefror 2021

Ymgyrch Adnewyddu Democratiaeth

Gymry, lleisiwch eich barn, er lles pawb! Mae pawb a'i farn, ond ydyn ni'n lleisio'r barnau hyn?

Rydym ni eisiau democratiaeth yng Nghymru weithio i bawb ac mae angen i fwy o bobl gymryd rhan yn y broses. I lleisio barn trwy bleidleisio, cysylltu â chynrychiolydd, neu dechrau neu arwyddo deiseb.

Er mwyn annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn democratiaeth yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgyrch gyfathrebu integredig. Mae'r ymgyrch yn targedu pobl ifanc 16-17 oed a dinasyddion o wledydd eraill sy'n byw yng Nghymru, a fydd yn gallu pleidleisio yn etholiadau'r Senedd am y tro cyntaf eleni, yn ogystal â grŵp ehangach o bobl ledled Cymru nad ydynt fel arfer yn cymryd rhan neu nad ydynt efallai'n gwybod sut y gallant gymryd camau cadarnhaol i wneud gwahaniaeth i'r pethau sy'n bwysig iddynt.

Byddwn yn cyfeirio pobl at dudalen glanio ymgyrch ddynodedig sydd wedi'i chynnwys ar wefan Llywodraeth Cymru [Lleisiwch eich barn | LLYW.CYMRU](#) lle byddwn yn annog ymwelwyr i gael gwybod mwy am y gwahanol ffyrdd y gallant gymryd rhan mewn democratiaeth.

Mae angen eich help arnom i godi ymwybyddiaeth o'r ymgyrch ar draws eich sianeli a'ch rhwydweithiau, gan ymestyn allan at bobl sydd wedi ymddieithrio o ddemocratiaeth ac nad ydynt yn gwybod sut y gallant gymryd camau cadarnhaol a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

Rydym wedi datblygu set o adnoddau (gan gynnwys gopi i'r wefan, templed e-fwletin, poster, negeseuon a fideos ar gyfer cyfryngau cymdeithasol) y gellir eu hychwanegu'n hawdd at eich gwefan, eu cynnwys mewn cylchlythyr rheolaidd a'u defnyddio ar eich sianeli cyfryngau cymdeithasol. Byddwn yn anfon dolen atoch i'r deunyddiau hyn yr wythnos nesaf.

Tagio ar Gyfryngau Cymdeithasol

Rydym wedi darparu copi cyfryngau cymdeithasol awgrymedig yn Gymraeg ac yn Saesneg i gefnogi'r asedau digidol sydd wedi'u creu os ydych yn hapus i bostio'n uniongyrchol o'ch sianeli. Byddem hefyd yn cynghori defnyddio [#useyourviews](#) / [#dweuddyddweud](#) lle bo hynny'n bosibl.

Bydd yr holl gynnwys â thâl yn cael ei hyrwyddo o sianeli cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru felly gofynnwn i chi dagio [@WelshGovernment](#) mewn unrhyw bostio ar-lein.

Llythyrau Hysbysu Cartrefi

Llythyrau grant sy'n cynnig cyllid ychwanegol ar gyfer cynhyrchu mae cynhyrchu llythyrau HNL wedi'u dosbarthu i Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol, bydd taliadau'n cael eu gwneud ym mis Mawrth.

Paratoi ar gyfer Etholiadau'r Senedd

Cysylltir â gweinyddwyr etholiadol drwy e-bost ddechrau mis Mawrth a gofynnir iddynt gadarnhau manylion banc ar gyfer talu blaendaliadau ar gyfer yr etholiad.

Isetholiadau gohiriedig

O 1 Mawrth gall isetholiadau a ohiriwyd o ganlyniad i bandemig Covid-19 ailddechrau. Byddem yn ddiolchgar iawn pe gallai Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol roi gwybod i ni pa gynlluniau sydd ar waith drwy gysylltu â blwch post yr etholiadau.

Y Diweddaraf ar Ddeddfwriaeth

Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) 2021

Ymestyn y darpariaethau ar gyfer dirprwyon brys am resymau COVID i isetholiadau arferol (heb eu gohirio o'r blaen) a cynhelir rhwng 25 Chwefror 2021 a 4 Tachwedd 2021.

Gorchymyn Senedd Cymru Ffioedd Swyddogion Canlyniadau 2021

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar gyllid ar gyfer etholiad y Senedd ar 16 Chwefror ac roedd angen ymatebion erbyn 1 Mawrth.

Systemau Rheoli Etholiadol

Er mwyn cynllunio ar gyfer y newidiadau i'r etholfraint ar gyfer etholiad y Senedd ym mis Mai ac ar gyfer y newid cyfatebol i'r etholfraint ar gyfer etholiadau lleol o fis Mai 2022 ymlaen, gwnaed newidiadau i Systemau Rheoli Etholiadol a oedd i gyd yn weithredol erbyn 1 Mehefin 2020.

Mae darparwyr y systemau wedi gofyn i ni eich atgoffa i adolygu eu harweiniad, dogfennau cymorth, nodiadau a chylchlythyrau a ddarperir ganddynt wrth adeiladu eich etholiadau ac i fynychu'r gwahanol weithdai a sesiynau cynllunio y maent yn eu cynnig cyn yr isetholiadau a ohiriwyd ac etholiadau cyfunol ym mis Mai.

Bydd gan bob system brosesau penodol y bydd angen i chi eu dilyn er mwyn sicrhau bod yr etholfraint yn cael ei hadeiladu'n gywir ar gyfer yr etholiad dan sylw.

Mae eu canllawiau'n nodi hyn yn fanwl ac maent ar gael i helpu i ateb unrhyw gwestiynau a chynnig awgrymiadau ar sut i gynnwys gwiriadau er mwyn sicrhau bod y rhai sydd newydd eu breinio yn cael eu cynrychioli'n briodol.

Gan mai mis Mai yw'r tro cyntaf y bydd yr etholfraint newydd yn gweithredu, byddwch hefyd am ddilyn awgrymiadau eich darparwyr ar wirio cofrestrau gorsafodd pleidleisio er mwyn sicrhau bod y grwpiau sydd newydd freinio (pobl ifanc 16/17 oed a dinasyddion tramor cymwys) wedi'u cynnwys ar y cofrestrau hynny.

Eich Cwestiynau Chi

A yw'r etholfraint newydd yn berthnasol i is-etholiadau lleol a cynhelir ar 6 Mai yn ogystal ag Etholiadau'r Senedd? Bydd isetholiadau Llywodraeth Leol a fydd yn cael eu cynnal yn 2021 yn gwneud hynny o dan yr etholfraint bresennol. Hynny yw, **ni fydd** y pleidleiswyr newydd hynny (pobl ifanc 16/17 oed a dinasyddion tramor cymwys) yn gymwys i bleidleisio. Bydd yr hawl i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yn cael ei hymestyn i'r grwpiau hyn ym mis Mai 2022 pan fydd yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin nesaf yn cael eu cynnal.

Pryd fydd canllawiau ar daliadau Swyddogion Canlyniadau yn cael eu cyhoeddi, a phryd y gwneir taliadau? Rydym wedi anfon llythyr at bob Swyddog Canlyniadau yn nodi'r Uchafswm Adenilladwy safonol a'r cyllid Covid-19 ychwanegol ar gyfer 2021, daeth y cyfnod ymgynghori ar gyfer hyn i ben ar 1 Mawrth. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau ar 22 Mawrth ynghyd â'r indemniad Swyddogion Canlyniadau a'r ffurflenni hawlio. Byddwn yn gwneud taliad ymlaen llaw o 75% o'r costau ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, tua'r 6ed o Ebrill 2021.

Bydd terfynau gwariant ymgeiswyr ar gyfer etholiadau lleol yn Lloegr yn cynyddu. A fyddai mesurau tebyg yn cael eu cyflwyno yng Nghymru? Ni fyddwn yn gwneud unrhyw newidiadau ar gyfer is-etholiadau llywodraeth leol yn 2021, ond byddwn yn adolygu'r terfynau gwariant ymgeiswyr fel rhan o'n gwaith paratoi gyfer yr etholiadau cyffredin ym mis Mai 2022.



Gwariant Eithriadol yn Etholiad y Senedd

Mae'r Tîm Etholiadau yn hapus i drafod unrhyw gostau eithriadol y gallech fod yn eu hwynebu y tu allan i'r amgylchiadau arferol wrth baratoi ar gyfer etholiad y Senedd. Mae rhai Swyddogion Canlyniadau eisoes wedi bod mewn cysylltiad mewn ymateb i lythyr gennym ni, ac mae'r mater wedi'i godi ym Mwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru yn ddiweddar. Os ydych wedi dod ar draws unrhyw gostau eithriadol yn eich paratoadau na fydddech fel arfer yn disgwyl eu darparu, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl i drafod eich anghenion ariannu a rhoi rhai manylion i ni am y costau hyn.

Etholiadau.elections@gov.wales